

Academic & Student Support Services
Academic Registrar
Simon Wright LLB
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Cofrestrydd Academaidd
Simon Wright LLB



Anfonwyd dros ebost i d.r.johnston@wales.ac.uk

07 Gorffennaf 2015

Annwyl Athro Johnston,

Ynghylch: Ymateb Sefydliad: Adroddiad Blynyddol Arholwyr Allanol 2014 – 2015

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl derbyn eich Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer BA yn y Gymraeg (laith a Llenyddiaeth).

Yn unol â'n harfer safonol, anfonir copi o'r Adroddiad at yr Ysgol dan sylw, a fydd yn defnyddio'r cynnwys i helpu i lywio ei broses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol. Mae'r Brifysgol yn falch o'ch sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys:

1. eich nodiadau cadarnhaol ynghylch strwythur y rhaglen, safonau academaidd a'r broses asesu;

Ymddengys nad yw eich adroddiad yn codi unrhyw faterion penodol y mae angen ymateb iddynt yn fwy manwl. Yn unol â hynny, nid yw'r Ysgol wedi gofyn am gael ymateb yn ffurfiol i'r Adroddiad.

Gan mai dyma eich blwyddyn olaf fel Arholwr Allanol, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaol ar gyfer y rhaglen, ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich mewnbwn gwerthfawr i'r broses hon

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côt Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiad Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe'r Gofrestrfa, a byddant ar gael i'r cyhoedd.

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwiad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,

Mr Simon Wright
Cofrestrydd Academaidd

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 ODE
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 ODE
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk